April 25 bilingual CPW lft.qxp_Layout 1 07/05/2025 10:31 Page 1



Community Pharmacy Wales
Fferylliaeth Gymunedol Cymru

# Community Pharmacy Wales **Manifesto 2026**

April 25 bilingual CPW lft.qxp_Layout 1 07/05/2025 10:31 Page 2



# CPW **Manifesto 2026**

**NHS Regulations require all community pharmacies to establish an organisation to represent them in negotiations with Government and the NHS on all matters relating to the NHS Community Pharmacy Contract. In Wales, Community Pharmacy Wales (CPW) is the nominated organisation that negotiates with the Welsh Government and NHS Wales and seeks to secure the widest possible NHS service opportunities along with the best possible remuneration and terms.**



Ahead of the 2026 Senedd elections, CPW has identified four key areas that it believes political parties must prioritise to ensure the future sustainability and effectiveness of the community pharmacy network across Wales. CPW is calling on the next Welsh Government to:

- Agree a new community pharmacy funding formula.
- Create a level playing field for the community pharmacy workforce in terms of salaries and terms and conditions equal to those available in the secondary and primary care sectors.
- Ensure fair access to funding for clinical facilities improvements.
- Recognise the potential of community pharmacy to play a leading role in the development of a Wales wide ill-health prevention agenda.

## Agree the community pharmacy funding formula



**In April 2022, the Welsh Government, NHS Wales and Community Pharmacy Wales launched wide-ranging reforms to the community pharmacy contractual arrangements - *"Presgripsiwn Newydd - A New Prescription",* which described the joint vision for how community pharmacy should be transformed to meet the needs of the people of Wales.**

More than half a million consultations took place across the core clinical services identified as priorities for the Welsh Government in the first year following its launch. This included nearly 240,000 consultations for a range of common ailments under the Common Ailments Service and over 160,000 NHS seasonal flu vaccinations. A review noted that almost 80% of people who visited a pharmacy and used these services reported they would have visited a GP or Out-of-Hours, service had the community pharmacy service been unavailable. This has released over 400,000 GP appointments, allowing GPs to focus on those suffering from more serious conditions. The Welsh Community Pharmacy network now delivers over 75,000 clinical services consultations every month which includes 42,000 Common Ailments consultations and 16,000 appointments with community pharmacy Independent Prescribers.

However, Welsh Government, NHS Wales and CPW acknowledge that current levels of service will be unsustainable without significant on-going increases in overall government investment, which has not kept pace with inflation and, ▶

April 25 bilingual CPW lft.qxp_Layout 1 07/05/2025 10:31 Page 3





- more particularly, annual increases have been insufficient to fully fund increases in the national minimum wage let alone fund the significant increase in the volume of community pharmacy clinical services.

The funding formula for community pharmacies in Wales needs urgent review to ensure the sustainability of the network and the continued delivery of the ambitions of *Presgripsiwn Newydd.* Without reform the viability of the community pharmacy network will continue to be at risk and further closures or reductions in opening hours, could leave communities without vital healthcare access.

**Community Pharmacy Wales calls on the next Welsh Government to agree new community pharmacy funding arrangements, taking into account both increased costs and growth in clinical service activity, that will ensure a sustainable and viable network to support the successful delivery and ambitions of *Presgripsiwn Newydd.* This will require a guarantee that all elements of NHS funding increase annually in line with inflation and which additionally funds the desired increase in the number of community pharmacy clinical service interventions.**



# Create a level playing field for the community pharmacy workforce

**The pharmacy sector faces intense competition for its workforce with hospitals and GP practices able to offer more attractive salaries and superior terms and conditions including access to the NHS Pension fund and enhanced holiday entitlements.**

Sustained investment in the community pharmacy workforce is essential to enable pharmacists and pharmacy technicians to fully utilise their skills, bringing high-quality healthcare closer to home. As the demand for pharmacy services increases to meet the ambitions of *Presgripsiwn Newydd*, community pharmacies are increasingly relied upon to provide clinical services, medication management, and preventative care. However, without adequate funding for workforce development, training, and career progression, the network risks staff shortages and burnout, limiting its ability to meet the ambitions of *Presgripsiwn Newydd* and patient need. Investing in continuous professional development, fair remuneration, and enhanced roles for pharmacy professionals will not only improve patient outcomes but also alleviate pressure on GPs and secondary care. A well-supported pharmacy workforce is key to ensuring a resilient and responsive NHS Wales and competitive salaries and terms and conditions are a vital tool in the recruitment and retention of pharmacy professionals.

**Community Pharmacy Wales calls on the next Welsh Government to create a level playing field for pharmacy professionals across all sectors through sustained investment in the community pharmacy workforce, enabling pharmacists and pharmacy technicians to fully use their skills to bring high-quality healthcare closer to home.**

April 25 bilingual CPW lft.qxp_Layout 1 07/05/2025 10:31 Page 4





## Ensure fair access to funding for clinical facilities improvements

The ambition of *Presgripsiwn Newydd* is for community pharmacies to deliver enhanced clinical services, such as independent prescribing and common ailments management. However, to deliver on this ambition, it is imperative that community pharmacies have fair access to funding for clinical facilities improvements. This includes investment in consultation rooms, digital infrastructure, and accessibility enhancements to meet evolving healthcare needs. The next Welsh Government must collaborate with the pharmacy network to reflect the sector's vital role in delivering frontline healthcare. By guaranteeing fair access to these resources, community pharmacies can continue expanding their clinical services, improving patient outcomes, and reducing pressure on other healthcare providers.

Additionally, the next Welsh Government should commit to creating a level playing field for community pharmacies as a business providing NHS primary care services. For example, GP surgeries do not pay Business Rates. There can be no justification for community pharmacies to be treated differently from GPs who are also independent businesses delivering services on behalf of the NHS.

**Community Pharmacy Wales calls on the next Welsh Government to ensure fair access to funding for clinical facilities improvements and to ensure that any specific financial contributions or concessions for the costs of business rates are equal to those afforded to other primary care providers.**

## Recognise the potential of community pharmacy to play a leading role in the development of a Wales wide ill-health prevention agenda

**A stable and viable community pharmacy network would be well placed to play a leading role in the development of a Wales wide ill-health prevention agenda. In fact, investing in community pharmacy is essential to improving public health outcomes and ensuring the sustainability of NHS Wales.**

Community pharmacies are highly accessible healthcare providers, often serving as the first point of contact for patients. With the right level of new and targeted investment, they can play a greater role in preventative care by delivering services such as the management of chronic conditions such as a hypertension service.

Additionally, medicines optimisation at community pharmacies can significantly benefit the social care sector by ensuring that patients, particularly those in vulnerable groups, receive the right medicines in the most effective and safe manner. Pharmacists can support the social care sector by conducting medication reviews, identifying and reducing inappropriate prescribing, and ensuring adherence to treatment plans, which helps prevent hospital admissions and medication-related harm.

**Community Pharmacy Wales calls on the next Welsh Government to provide new,  targeted funding streams to ensure that the community pharmacy network is an integral part of the preventative agenda in Wales.**

If you have any questions regarding the contents of this briefing, please contact Kayleigh Williams at Kayleigh.Williams@cpwales.org.uk

April 25 bilingual CPW lft.qxp_Layout 1 07/05/2025 10:31 Page 5



Community Pharmacy Wales
Fferylliaeth Gymunedol Cymru

# **Maniffesto** Fferylliaeth Gymundeol Cymru 2026

April 25 bilingual CPW lft.qxp_Layout 1 07/05/2025 10:31 Page 6



# **Maniffesto** Fferylliaeth Gymunedol Cymru 2026

**Mae rheoliadau'r GIG yn ei gwneud yn ofynnol i bob fferyllfa gymunedol sicrhau sefydliad i'w cynrychioli mewn trafodaethau gyda'r Llywodraeth a'r GIG ar bob mater sy'n ymwneud â Chontract Fferylliaeth Gymunedol y GIG. Yng Nghymru, Fferylliaeth Gymunedol Cymru yw'r sefydliad enwebedig sy'n trafod gyda Llywodraeth Cymru a GIG Cymru ac sy'n ceisio sicrhau'r cyfleoedd gwasanaeth GIG ehangaf posibl ynghyd â'r tâl a'r telerau gorau posibl.**



Cyn etholiadau'r Senedd yn 2026, mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru wedi nodi pedwar maes allweddol y mae'n credu bod yn rhaid i bleidiau gwleidyddol flaenoriaethu i sicrhau cynaliadwyedd ac effeithiolrwydd y rhwydwaith fferyllfeydd cymunedol ledled Cymru yn y dyfodol. Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i:

- Cytuno ar fformiwla ariannu fferylliaeth gymunedol newydd.
- Sicrhau maes chwarae cyfartal i'r gweithlu fferylliaeth gymunedol o ran cyflogau a thelerau ac amodau sy'n gyfartal â'r rhai sydd ar gael yn y sectorau eilaidd a sylfaenol.
- Sicrhau mynediad teg at gyllid ar gyfer gwelliannau cyfleusterau clinigol.
- Cydnabod potensial fferylliaeth gymunedol i chwarae rhan flaenllaw wrth ddatblygu agenda ataliol salwch yng Nghymru.

## Cytuno ar y fformiwla ariannu fferylliaeth gymunedol



**Ym mis Ebrill 2022, lansiodd Llywodraeth Cymru, GIG Cymru a Fferylliaeth Gymunedol Cymru ddiwygiadau eang i'r trefniadau cytundebol fferylliaeth gymunedol - *"Presgripsiwn Newydd – A New Perscription"*, a oedd yn disgrifio'r cyd-weledigaeth ar gyfer sut y dylid trawsnewid fferylliaeth gymunedol i ddiwallu anghenion pobl Cymru.**

Cynhaliwyd mwy na hanner miliwn o ymgynghoriadau ar draws y gwasanaethau clinigol craidd a nodwyd fel blaenoriaethau i Lywodraeth Cymru yn y flwyddyn gyntaf ar ôl ei lansio. Roedd hyn yn cynnwys bron i 240,000 o ymgynghoriadau ar gyfer ystod o anhwylderau cyffredin o dan y Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin a dros 160,000 o frechiadau ffliw tymhorol y GIG. Nododd adolygiad fod bron i 80% o bobl a ymwelodd â fferyllfa ac wedi defnyddio'r gwasanaethau hyn yn dweud y byddent wedi ymweld â meddyg teulu neu wasanaeth y tu allan i oriau pe na bai'r gwasanaeth fferyllfa gymunedol ar gael. Mae hyn wedi rhyddhau dros 400,000 o apwyntiadau meddygon teulu, gan ganiatáu i feddygon teulu ganolbwyntio ar y rhai sy'n dioddef o gyflyrau mwy difrifol. Mae rhwydwaith Fferylliaeth Gymunedol Cymru bellach yn darparu dros 65,000 o ymgynghoriadau gwasanaethau clinigol bob mis, sy'n cynnwys 37,000 o ymgynghoriadau Anhwylderau Cyffredin ac 11,000 o apwyntiadau gyda fferyllwyr cymunedol sy'n Rhagnodwyr Annibynnol.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru, GIG Cymru a Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn cydnabod na fydd y lefelau ▶



- presennol o wasanaeth yn gynaliadwy heb gynnydd sylweddol parhaus ym muddsoddiad cyffredinol y llywodraeth, heb gadw i fyny â chwyddiant ac, yn fwy arbennig, nid yw'r cynnydd blynyddol wedi bod yn ddigonol i ariannu'n llawn y cynnydd yn yr isafswm cyflog cenedlaethol, heb sôn am ariannu'r cynnydd sylweddol yn nifer y gwasanaethau clinigol mewn fferyllfeydd gymunedol.

Mae angen adolygu'r fformiwla ariannu ar gyfer fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru ar frys i sicrhau cynaliadwyedd y rhwydwaith a chyflawni uchelgeisiau *Presgripsiwn Newydd yn* barhaus. Heb ddiwygio, bydd hyfywedd y rhwydwaith fferyllfeydd cymunedol yn parhau i fod mewn perygl a gallai mwy o fferyllfeydd cau neu lleihau oriau agor, gan adael cymunedau heb fynediad at ofal iechyd hanfodol.

**Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i gytuno ar drefniadau cyllido fferylliaeth gymunedol newydd, gan ystyried costau cynyddol a thwf mewn gweithgarwch gwasanaethau clinigol, a fydd yn sicrhau rhwydwaith cynaliadwy a hyfyw i gefnogi uchelgeisiau *Presgripsiwn Newydd.* Bydd hyn yn gofyn am warant bod pob elfen o gyllid y GIG yn cynyddu'n flynyddol yn unol â chwyddiant ac sy'n hefyd yn ariannu'r cynnydd yn nifer yr ymyriadau gwasanaeth clinigol fferylliaeth gymunedol.**



# Creu maes chwarae cyfartal i'r gweithlu fferylliaeth gymunedol

**Mae'r sector fferylliaeth yn wynebu cystadleuaeth ddwys am ei weithlu, gydag ysbytai a phractisau meddygon teulu yn gallu cynnig cyflogau mwy deniadol a thelerau ac amodau uwch gan gynnwys mynediad i gronfa Bensiwn y GIG a hawliau gwyliau gwell.**

Mae buddsoddiad parhaus yn y gweithlu fferylliaeth gymunedol yn hanfodol er mwyn galluogi fferyllwyr a thechnegwyr fferylliaeth i ddefnyddio eu sgiliau yn llawn, gan ddod â gofal iechyd o ansawdd uchel yn agosach at adref. Wrth i'r galw am wasanaethau fferylliaeth gynyddu i fodloni uchelgeisiau *Presgripsiwn Newydd*, mae fferyllfeydd cymunedol yn gynyddol ddarparu gwasanaethau clinigol, rheoli meddyginiaethau, a gofal ataliol. Fodd bynnag, heb gyllid digonol ar gyfer datblygu'r gweithlu, hyfforddiant, a dilyniant gyrfa, mae'r rhwydwaith yn peryglu prinder staff a gor-straen i'r staff, gan gyfyngu ar eu gallu i fodloni uchelgeisiau *Presgripsiwn Newydd* ac anghenion cleifion. Bydd buddsoddi mewn datblygiad proffesiynol parhaus, tâl teg, a rolau gwell i weithwyr proffesiynol fferylliaeth nid yn unig yn gwella canlyniadau cleifion ond hefyd yn lliniaru'r pwysau ar feddygon teulu a gofal eilaidd. Mae gweithlu fferylliaeth sydd â chefnogaeth dda yn allweddol i sicrhau GIG Cymru gwydn ac mae cyflogau ac amodau cystadleuol yn hanfodol wrth recriwtio a chadw gweithwyr proffesiynol fferyllol.

**Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i sicrhau maes chwarae cyfartal i weithwyr fferylliaeth proffesiynol ym mhob sector drwy fuddsoddi yn barhaus yn y gweithlu fferylliaeth gymunedol, gan alluogi fferyllwyr a thechnegwyr fferylliaeth i ddefnyddio eu sgiliau yn llawn, gan ddod â gofal iechyd o ansawdd uchel yn agosach at adref.**



## Sicrhau mynediad teg at gyllid ar gyfer gwelliannau cyfleusterau clinigol

Uchelgais *Presgripsiwn Newydd* yw i fferyllfeydd cymunedol ddarparu gwasanaethau clinigol gwell, megis rhagnodi annibynnol, adolygiadau meddyginiaethau a rheoli anhwylderau cyffredin. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni'r uchelgais hon, mae'n hanfodol bod fferyllfeydd cymunedol yn cael mynediad teg at gyllid ar gyfer gwelliannau cyfleusterau clinigol. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi mewn ystafelloedd ymgynghori, seilwaith digidol, a gwelliannau hygyrchedd i ddiwallu anghenion gofal iechyd sy'n esblygu. Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru gydweithio â'r rhwydwaith fferyllfeydd i adlewyrchu rôl hanfodol y sector wrth ddarparu gofal iechyd rheng flaen. Trwy warantu mynediad teg i'r adnoddau hyn, gall fferyllfeydd cymunedol barhau i ehangu eu gwasanaethau clinigol, gwella canlyniadau i gleifion, a lleihau'r pwysau ar ddarparwyr gofal iechyd eraill.

Yn ogystal, dylai Llywodraeth nesaf Cymru ymrwymo i greu maes chwarae cyfartal i fferyllfeydd cymunedol fel busnes sy'n darparu gwasanaethau gofal sylfaenol y GIG. Er enghraifft, nid yw meddygfeydd meddygon teulu yn talu Ardrethi Busnes. Ni ellir cyfiawnhau i fferyllfeydd cymunedol gael eu trin yn wahanol i feddygon teulu sydd hefyd yn fusnesau annibynnol sy'n darparu gwasanaethau ar ran y GIG.

**Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i sicrhau mynediad teg at gyllid ar gyfer gwelliannau cyfleusterau clinigol ac i sicrhau bod unrhyw gyfraniadau ariannol penodol neu gonsesiynau ar gyfer costau ardrethi busnes yn gyfartal â'r rhai a roddir i ddarparwyr gofal sylfaenol eraill.**

## Cydnabod potensial fferylliaeth gymunedol i chwarae rhan flaenllaw wrth ddatblygu agenda atal salwch Cymru gyfan

**Byddai rhwydwaith fferyllfeydd cymunedol sefydlog a hyfyw mewn sefyllfa dda i chwarae rhan flaenllaw wrth ddatblygu agenda atal salwch Cymru gyfan. Mewn gwirionedd, mae buddsoddi yn y gymuned yn hanfodol i wella canlyniadau iechyd y cyhoedd a sicrhau cynaliadwyedd GIG Cymru.**

Mae fferyllfeydd cymunedol yn ddarparwyr gofal iechyd hygyrch iawn, sy'n aml yn gwasanaethu fel y pwynt cyswllt cyntaf i gleifion. Gyda'r lefel gywir o fuddsoddiad newydd a thargedu, gallant chwarae rhan mwy blaenllaw mewn gofal ataliol trwy ddarparu gwasanaethau fel rheoli cyflyrau cronig fel gwasanaeth pwysedd gwaed uchel.

Yn ogystal, gall optimeiddio meddyginiaethau mewn fferyllfeydd cymunedol fod o fudd sylweddol i'r sector gofal cymdeithasol trwy sicrhau bod cleifion, yn enwedig y rhai mewn grwpiau sy'n agored i niwed, yn derbyn y meddyginiaethau cywir yn y ffordd fwyaf effeithiol a diogel. Gall fferyllwyr hefyd gefnogi'r sector gofal cymdeithasol trwy gynnal adolygiadau meddyginiaethau, gan nodi a lleihau rhagnodi amhriodol, a sicrhau cadw at gynlluniau triniaeth, sy'n helpu i atal derbyniadau i'r ysbyty a niwed sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau.

**Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i ddarparu ffrydiau ariannu newydd wedi'u targedu i sicrhau bod y rhwydwaith fferyllfeydd cymunedol yn rhan annatod o'r agenda ataliol yng Nghymru.**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gynnwys y briff hwn, cysylltwch â Kayleigh Williams ar Kayleigh.Williams@cpwales.org.uk